# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2014** | |
| Amser: | **08:30 - 09:05** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire Fife, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i Fusnes y Llywodraeth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mercher cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 19 Chwefror 2014**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

## 4 Cyllideb

4(i) Adolygiad o Broses y Gyllideb

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar welliannau posibl i broses y gyllideb yn dilyn pryderon yn ystod cylch y gyllideb yn nhymor yr hydref y llynedd nad oedd rhai meysydd polisi yn destun gwaith craffu gan unrhyw bwyllgorau.

Bydd y Llywydd yn ysgrifennu at y pum pwyllgor polisi a'r Pwyllgor Cyllid i ofyn eu barn ar unrhyw faterion sy'n codi o broses y gyllideb eleni a sut y gellid gwella'r broses yn y dyfodol.

## 5 Deddfwriaeth

5(i) Gweithdrefnau a threfn ar gyfer Cyfnod 3 y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant

Nododd y Rheolwyr Busnes bapur a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol ar gyfer y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a gynhelir ddydd Mawrth 4 Chwefror a dydd Mawrth 11 Chwefror. Dosberthir nodyn i Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl Cyfnod 3.